**P-05-947 Dylai llythyrau meddygon teulu fod am ddim i fyfyrwyr**
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan William Bremner, ar ôl casglu cyfanswm o 144 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ar hyn o bryd, os bydd angen llythyr meddyg teulu ar fyfyriwr i gefnogi hawliad amgylchiadau esgusodol neu am dystiolaeth ar gyfer cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA), bydd y meddyg teulu yn codi tua £35 ar y myfyriwr (gan ddibynnu ar y feddygfa). Oherwydd hyn, ar ben yr anawsterau posibl i fyfyrwyr o ran eu hiechyd, o ran anableddau dysgu, a/neu o ran anableddau, mae'n rhaid iddynt dalu i gael dogfen sy'n dangos hynny. I lawer o fyfyrwyr (yn enwedig y rhai o gefndiroedd tlotach), golyga hyn eu bod yn cael trafferth i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i allu cwblhau eu cwrs gradd, ac mewn rhai achosion i gael dau ben y llinyn ynghyd.

**Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**
- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru